**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1563
Ein cyf JH-/01039/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

22 Rhagfyr 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr 2025 ynglŷn â Deiseb P-06-1563, a gyflwynwyd gan Luke Thomas ac a gefnogwyd gan lofnodwyr ar wefan deisebau'r Senedd. Darperir yr ateb hwn i'r Pwyllgor Deisebau fel ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â phryderon dinasyddion a chymunedau Cymru. Mae'n bwysig bod yn glir bod polisïau mewnfudo a lloches yn faterion sydd wedi'u neilltuo, ac yn cael eu pennu gan Lywodraeth y DU. Nid oes gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i weithredu nac i atal polisïau a bennir ar gyfer y DU gyfan ar y mater hwn.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn penderfynu faint o'r bobl sy'n ceisio lloches yn y DU sy'n cael eu lleoli yng Nghymru – nac yn penderfynu pwy sy'n cael eu lleoli yng Nghymru. Mae hwn bob amser wedi bod yn benderfyniad i Lywodraeth y DU yn unig. Rydym wedi ymrwymo i groesawu ein cyfran gymesur o bobl sy'n ceisio noddfa yn y DU – mae hyn yn cyfateb i hyd at 5% o'r holl rai sy'n cyrraedd.

O fewn ein pwerau datganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio i sicrhau bod Cymru'n dal i fod yn genedl ddiogel, groesawgar a chydlynol. Byddwn yn cefnogi pobl sy'n dod i Gymru, gan eu helpu i setlo, cael mynediad at wasanaethau, ac integreiddio'n llwyddiannus i'w cymunedau. Ar yr un pryd, rydym yn parhau i fynd i'r afael â thlodi, lleihau digartrefedd, a gwella gwasanaethau cyhoeddus i bob preswylydd, gan sicrhau bod anghenion dinasyddion Cymru yn cael eu diwallu ochr yn ochr â'n hymrwymiadau ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cymunedau cynhwysol lle gall pawb gyfrannu'n ystyrlon at gymdeithas. Mae'r dull hwn o weithredu'n ein galluogi i gydbwyso darparu cefnogaeth i'r rhai sydd angen noddfa â sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu cryfhau a bod anghenion trigolion yn cael eu blaenoriaethu o fewn ein cyfrifoldebau datganoledig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn 2016, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wneud Cymru'n Genedl Noddfa. O ganlyniad uniongyrchol i'r ymchwiliad hwnnw, gwnaethom gyhoeddi'r Cynllun Cenedl Noddfa yn 2019, a ddiweddarwyd wedyn fel rhan o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2024).

Mae bod yn Genedl Noddfa yn golygu cefnogi'r rhai sy'n ffoi rhag erledigaeth a rhyfel ac yn cyrraedd yma i ailadeiladu eu bywydau. Rydym yn eu helpu i integreiddio i fywyd yng Nghymru a chyfrannu'n gadarnhaol i'n cenedl. Credwn fod yr ymateb trugarog hwn yn rhoi'r dechrau gorau posibl i bobl sy'n chwilio am noddfa ac yn helpu gwasanaethau a chymunedau lleol hefyd.

Rwy'n falch o'n gweledigaeth o Gymru fel Cenedl Noddfa, ac yn falch o'r ffordd rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, partneriaid y trydydd sector a chymunedau i wireddu'r weledigaeth hon ledled Cymru. Rwyf hefyd yn falch o'n cymunedau, trefi, dinasoedd, ysgolion a phrifysgolion niferus sy'n dymuno dod yn fannau noddfa a chroeso i'r rhai sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru. Ar adeg o ansefydlogrwydd byd-eang ac argyfyngau dyngarol, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn cynnal ein gwerthoedd o drugaredd, croeso a chymuned.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip